Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir y Fflint

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2448A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Adroddiad manwl

Mae ffocws y Cyngor ar wella'i gydnerthedd ariannol trwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw 5

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 5

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur, a gaiff ei chyfleu'n dda; mae'n canolbwyntio ar wella'i gydnerthedd trwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw 6

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu yn 2020-21 ond yn y blynyddoedd blaenorol mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i helpu i fantoli'r gyllideb wedi lleihau eu lefelau ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod hynny'n cyfyngu'n sylweddol ar ei gydnerthedd yn wyneb risgiau i wasanaethau 9

Mae gan y Cyngor hanes o gadw'n agos at y cyllidebau a gynlluniwyd ganddo yn y rhan fwyaf o feysydd 11

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio: fodd bynnag, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her wrth edrych tua'r dyfodol 12

Mae cymhareb hylifedd y Cyngor wedi bod ar yr un lefel am y tair blynedd diwethaf 14

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn yn ystod mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Adroddiad manwl

## Mae ffocws y Cyngor ar wella'i gydnerthedd ariannol trwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw

### Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod y rhan fwyaf o'i wariant ac incwm a gollwyd sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn 2020-21 yn cael ei ariannu gan gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- mae'r Cyngor wedi amcangyfrif na fydd oddeutu £0.6 miliwn o wariant ychwanegol a £0.3 miliwn o incwm a gollwyd sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ystod 2020-21 yn cael ei ariannu gan y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd effaith barhaus o ganlyniad i'r pandemig ar feysydd gwasanaeth penodol yn ystod 2021-22.
- mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd gostyngiad yng nghyfraddau casglu'r dreth gyngor (98.7 y cant yn 2021-22) o ganlyniad i nifer gostyngol o drigolion ar ffyrlo a nifer cynyddol o drigolion sydd newydd gael eu gwneud yn ddi-waith o ganlyniad yn uniongyrchol i'r pandemig. Mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer gostyngiad o 0.2 y cant yn ei gyfradd casglu ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer 2021-22 sy'n cyfateb i £0.180 miliwn yn nhermau arian parod i gydnabod yr effaith ddisgwyliedig.

**Arddangosyn 1: cost COVID-19 i'r Cyngor yn 2020-21[2]**

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrifon y Cyngor o'r gwariant ychwanegol a'r incwm a gollwyd yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru[3].

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £14 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £4.5 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19.<br>Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am "arbedion nas cyflawnwyd" a "thrawsnewid digidol". | £18.1 miliwn<br>£2.4 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 ar ôl ystyried cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. | £0.9 miliwn |

## Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol eglur, a gaiff ei chyfleu'n dda; mae'n canolbwyntio ar wella'i gydnerthedd trwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

[2] Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint i Archwilio Cymru. Mawrth 2021

[3] Ym mis Gorffennaf 2021, mae gan y Cyngor o hyd nifer o hawliadau heb eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

9 Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ac, yn y cyd-destun hwn, bydd lliniaru'r effaith ar gynghorau nid yn unig yn dibynnu ar y camau y gallant eu cymryd, ond hefyd i raddau helaeth ar faint o adnoddau a ddyrennir gan lywodraethau. Rydym yn cydnabod mai un mater allweddol i gynghorau wrth geisio cynllunio'n ariannol dros y tymor canolig yw ansicrwydd o hyd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei gael gan y llywodraeth, a'u ffrydiau incwm eu hunain, megis y dreth gyngor a ffioedd a thaliadau

10 Canfuom fel a ganlyn:


- mae gan y Cyngor strategaeth ariannol tymor canolig eglur, a gaiff ei chyfleu'n dda ar gyfer y cyfnod 2021-2024 ond mae ei ddibyniaeth ar lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid gwell er mwyn pennu cyllideb fantoledig yn dal i fod yn ddull risg-uchel. Mae'r Cyngor yn dal i ddatgan mai ei bolisi yw nad yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch gwasanaethau i fantoli'r gyllideb. Mae'r Cyngor yn dadlau bod yr opsiynau i gwtogi cyllidebau gan gynnal gwasanaethau ar lefel sy'n dderbyniol i gymunedau ac sy'n ddiogel ac yn cydymffurfio â statud bellach wedi'u dihysbyddu i raddau helaeth.
- nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau mawr i'w ddull o ddatblygu'r SATC yn 2021-22 gan bod ei ffocws wedi bod ar reoli'r pandemig. Mae'r SATC gyfredol yn nodi'n glir bod bwlch o ran cyllid, yn berthynol i gost net ei wasanaethau yn 2019-20, o £16.75 miliwn. Ychydig o dan £19 miliwn yw'r rhagolwg gyfunol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai amcanestyniadau tymor hwy yn ddefnyddiol i'w helpu i gynllunio ymhellach ymlaen ac mae yn y broses o ddiweddaru ei SATC.
- mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wella'i gydnerthedd trwy fynd i'r afael â phwysau cyllidebol mewn meysydd gwasanaeth allweddol a arweinir gan y galw megis addysg a lleoliadau y tu allan i'r sir. Yng nghyllideb 2021-22 mae'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol mewn addysg ac ysgolion gyda chynnydd yn y cyllid o 3.6%. I fynd i'r afael â chost lleoliadau y tu allan i'r sir a gwella'i wasanaeth, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu ei ddarpariaeth cartrefi gofal preswyl ei hun ar gyfer plant a phobl ifanc dros y tair blynedd ariannol nesaf trwy gyflawni ystod o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth frys newydd i alluogi ymateb effeithiol i sefyllfaoedd argyfyngus a chartrefi grwpiau bychain i alluogi plant i fyw yn eu cymuned leol.
- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor ond fe ddirywiodd perfformiad o 98.2% yn 2018-19 i 97.9% yn 2019-20 er ei fod yn dal i fod yn y chwartel uchaf ar gyfer perfformiad yng Nghymru[4]. Mae incwm y dreth gyngor yn Sir y Fflint wedi cynyddu o 23% o ffynonellau refeniw net yn 2010-11 i 31% yn 2019-20.

[4] Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru – cyfraddau casglu'r dreth gyngor yng Nghymru 2019-20

- mae'r Cyngor wedi cyflawni gwaith sylweddol arall i drawsnewid gwasanaethau er mwyn gwella cynhyrchiant mewn nifer o feysydd trwy roi modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ar waith (hamdden, llyfrgelloedd a chyfleusterau) ac mae wedi gwireddu peth incwm ychwanegol. Yn ystod y cyfnod o 2021-24 mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i ddefnyddio dull ac iddo sawl elfen trwy'r mentrau canlynol:
  – ail-lunio gwasanaethau/rhaglenni moderneiddio ymhellach;
  – archwilio'r manteision sy'n deillio o raglenni rhanbarthol/cydweithio;
  – gwneud newidiadau i ffioedd, taliadau a chreu incwm; ac
  – ystyried modelau darparu amgen.

**Arddangosyn 2: y bwlch o ran cyllid a ragamcanir gan y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd 2021-24**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y blynyddoedd canlynol.



## Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu yn 2020-21 ond yn y blynyddoedd blaenorol mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i helpu i fantoli'r gyllideb wedi lleihau eu lefelau ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod hynny'n cyfyngu'n sylweddol ar ei gydnerthedd yn wyneb risgiau i wasanaethau

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy


11 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

12 Canfuom fel a ganlyn:

- mae polisi'r Cyngor ar gronfeydd wrth gefn yn nodi sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn adolygu ei sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn. Mae'r Cabinet a phwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cael gwybodaeth trwy adroddiadau monitro'r gyllideb a gynhyrchir yn rheolaidd.
- dros y tair blynedd rhwng 2016-18 a 2018-19 mae defnydd wedi'i gynllunio o £6.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi helpu i bennu cyllideb fantoledig.
- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu i oddeutu £38.5 miliwn ym mis Mawrth 2021 o £24.3 miliwn ym mis Mawrth 2020.
- mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd defnyddio cronfeydd wrth gefn i bennu cyllideb fantoledig yn 'cyfyngu'n sylweddol ar gydnerthedd y Cyngor yn wyneb risg i wasanaethau' a'i gynaliadwyedd ar y cyfan.

**Arddangosyn 3: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.




| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [5] | 258.2 | 258 | 265.5 | 273.3 | |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [6] | 31.5 | 28.6 | 27.3 | 24.3 | |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [7] | 12.2 | 11.1 | 10.3 | 8.9 | |
| Cymharu â chynghorau eraill Cymru | 16 | 17 | 16 | 21 | nid ar gael |

[5] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[6] Defnyddiwn y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[7] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae gan y Cyngor hanes o gadw'n agos at y cyllidebau a gynlluniwyd ganddo yn y rhan fwyaf o feysydd

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

13 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

14 Canfuom fel a ganlyn:

- yn y ddwy flynedd rhwng 2018-19 a 2019-20, mae'r Cyngor wedi cadw'n agos at y cyllidebau a gynlluniwyd ganddo yn y rhan fwyaf o feysydd, gan gyflawni 98% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn y ddwy flynedd.
- er bod y Cyngor yn disgwyl ym mis Rhagfyr 2020 y byddai ganddo orwariant refeniw ar y cyfan yn 2020-21, oherwydd effaith y pandemig, fe wnaeth cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2021 alluogi'r Cyngor i gadw at y gyllideb a gynlluniwyd ganddo. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl gorwariant ar y cyfan yn 2020-21 unwaith y bydd yn cael taliadau terfynol gan Lywodraeth Cymru.
- yn 2021-22 mae'r Cyngor yn rhagweld meysydd posibl a fydd yn achosi risgiau o ran potensial ar gyfer gorwariannau oherwydd codiadau cyflog nas rhagwelwyd, pwysau gofal cymdeithasol, a gwasanaethau a arweinir gan y galw. Yn 2021-22 cynllunnir cyfanswm o £2.363 miliwn o ostyngiadau effeithlonrwydd yng nghyllidebau'r holl wasanaethau, ac eithrio ysgolion, ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fynd ati'n rheolaidd i wneud gwaith monitro ac adrodd penodol ar gyflawni cyllidebau.

**Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yn hyn ar 4 Mawrth 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [8] | 251.99 | 255.16 | 264.39 | 271.35 | 285.98 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [9] | 249.95 | 253.05 | 263.72 | 270.91 | 285.06 |
| Swm y tanwariant ar y cyfan [10] | 2.04 | 2.11 | 0.67 | 0.44 | 0.92 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 0.81% | 0.83% | 0.25% | 0.16% | 0.32% |

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio: fodd bynnag, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn fwy o her wrth edrych tua'r dyfodol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

15 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

[8] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[9] Defnyddiwn y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[10] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae gan y Cyngor hanes sy'n gwella o ran cyflawni'r arbedion penodol y mae wedi'u hadnabod. Yn 2015-16 nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 83% o'i arbedion wedi'u cynllunio. Dros flynyddoedd dilynol mae'r Cyngor wedi gwella'i sefyllfa, gan gyflawni 98.1% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn 2019-20.
- mae'r gwelliant hwn wedi cael ei adlewyrchu yn y targedau perfformiad y mae'r Cyngor yn eu gosod i'w hunan yn ei SATC.

**Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd rhwng 2019-20 a 2020-21 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion yn ystod 2018-19 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal â ffigyrau amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21.

| | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau [11] | 5.51 | 6.82 | 5.21 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau [12] | 5.41 | 6.13 | 5.36 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.10 | 0.69 | (0.15) yn uwch na'r targed |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 98% | 90.0% | 103% |

[11] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[12] Defnyddiwn y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

## Mae cymhareb hylifedd y Cyngor wedi bod ar yr un lefel am y tair blynedd diwethaf

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

16 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

17 Canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi cynnal yr un gymhareb hylifedd dros y tair blynedd ddiwethaf.
- mae gan y Cyngor strategaeth rheoli Trysorlys sy'n nodi trefniadau i gwrdd â'i rwymedigaethau. Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol ac mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n craffu arni.

**Arddangosyn 6: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [13] | 65 | 52.5 | 78.8 | 76.3 | 86 | Amh |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [14] | 36.8 | 51.9 | 94.1 | 91.6 | 104.3 | Amh |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.8 | 1.0 | 0.8 | 0.8 | 0.8 | Amh |

[13] Asedau Cyfredol, sy'n cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

[14] Rhwymedigaethau Cyfredol, sy'n cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.